Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trosolwg o Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd




Dyma ddogfen Hawdd ei Deall gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd 17 Mawrth 2022

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 | 1 |
| Galluedd Meddyliol | 1 |
| Diogelu hawliau pobl 16 oed a hŷn | 2 |
| Cyrff Cyfrifol | 3 |
| Yr hawl i gael cymorth gan Berson Priodol neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) | 3 |
| Asesiadau (a Phenderfyniadau) | 4 |
| Ymgynghori | 5 |
| Adolygiad Cyn-awdurdodi | 5 |
| Triniaeth Cynnal Bywyd neu Weithred Hanfodol | 6 |
| Rheoliadau Newydd i Gymru | 7 |
| Cod Ymarfer drafft Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Cymru a Lloegr | 8 |
| Geiriau ac ymadroddion sydd ag ystyron arbennig | 9 |


Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43669




# Deddf Galluedd Meddyliol 2019

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn creu deddf newydd: Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) (2019).

Bydd y ddeddf yn newid Deddf Galluedd Meddyliol (2005).


Cynllun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Bydd y cynllun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn dod i ben.

Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)

Bydd y cynllun newydd yn dechrau: y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS).


# Galluedd Meddyliol



Diffyg galluedd yw:

- pan nad yw person yn gallu gwneud penderfyniad oherwydd nid yw'n deall pa benderfyniad y mae angen iddo ei wneud
- neu, os yw person yn cael trafferth deall gwybodaeth
- neu, os nad yw'n gallu mynegi'r penderfyniad i bobl o'i gwmpas.

# Diogelu hawliau pobl 16 oed a hŷn




O dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae gan bobl hawl i **Ryddid** (sy'n cael ei alw'n hawl **Erthygl 5** dan y Confensiwn).




Weithiau mae angen i berson sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniad am ei ofal, ei gymorth neu ei driniaeth, fyw yn rhywle a bod o dan oruchwyliaeth a rheolaeth gyson er mwyn derbyn **gofal, cymorth neu driniaeth**. Gall hynny olygu cymryd ei ryddid oddi wrtho.




Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn gosod rheolau fydd yn diogelu hawliau person (16 oed neu hŷn) o dan Erthygl 5 os oes angen ei **amddifadu o'i ryddid**.



Ni does modd rhoi awdurdodiad ar gyfer pethau eraill o dan y cynllun LPS, er enghraifft cyfyngu ar gysylltiad teuluol (y Ddeddf Galluedd Meddyliol fyddai'n delio â hynny).



## Cyrff Cyfrifol

Bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yng Nghymru.

## Yr hawl i gael cymorth gan Berson Priodol neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)



Bydd y Corff Cyfrifol yn gwirio a oes gan y person rywun sy'n gallu gweithredu fel Person Priodol i'w gynrychioli. Gall Person Priodol fod yn rhywun y mae'r person yn ei ddewis i helpu dweud ei stori a beth y mae am ei gael.



Os nad oes gan y person rywun sy'n gallu gweithredu fel Person Priodol, yna dylai'r Corff Cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i benodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) i'w gefnogi drwy'r broses.

Gall Berson Priodol hefyd ofyn am gymorth gan IMCA.

Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod digon o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol ar gael ar gyfer ardal y bwrdd iechyd.


# Asesiadau
# (a Phenderfyniadau)




Rhaid cael asesiad i benderfynu a oes gan y person ddiffyg galluedd. Rhaid cael asesiad meddygol hefyd i benderfynu a oes gan y person anhwylder meddyliol. Mae'n bosibl ailddefnyddio'r asesiadau hyn os ydynt yn parhau i fod yn ddilys / yn gywir / yn addas.




Mae'n rhaid i staff feddwl am faint o ryddid maen nhw'n ei gymryd oddi ar rywun ac a oes **gwir** angen iddyn nhw wneud hynny. Mae hyn yn cael ei alw'n asesiad **angenrheidrwydd a chymesuredd**. Nid yw'n bosibl ailddefnyddio'r asesiad hwn.



Rydym am i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid gael eu hystyried ar yr un pryd ag asesiadau a chynlluniau eraill ar gyfer y person. Rhaid i staff sicrhau bod y gofal, y cymorth neu'r driniaeth sy'n golygu bod angen amddifadu rhywun o'i ryddid yn **iawn** i'r person.

## Ymgynghori



Mae'n rhaid i staff ymgynghori â'r person a'i deulu ac eraill, gan gynnwys pobl y mae'r person wedi eu dewis, am **ddymuniadau a theimladau'r** person.

## Adolygiad Cyn-awdurdodi



Cyn i'r Corff Cyfrifol awdurdodi'r Amddifadedd o Ryddid, mae Adolygiad Cyn-awdurdodi yn cael ei gynnal i edrych ar yr holl dystiolaeth a'r gwaith papur i weld a yw'r amodau wedi eu bodloni ar gyfer awdurdodiad.

Pan nad yw person yn dymuno byw yn y lle neu dderbyn gofal, cymorth neu driniaeth yn y lle, mae'r Adolygiad Cyn-awdurdodi yn cael ei wneud gan Weithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP), sy'n gorfod cyfarfod â'r person. Mae'r AMCP hefyd yn gwneud hyn ar gyfer ysbytai annibynnol, a phan fydd y Corff Cyfrifol yn atgyfeirio'r achos at AMCP.




Rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo pob AMCP ar gyfer yr holl Gyrff Cyfrifol yn yr ardal.

# Triniaeth Cynnal Bywyd neu Weithred Hanfodol



Mewn argyfwng, neu wrth aros am benderfyniad gan y Corff Cyfrifol neu'r Llys Gwarchod (yn achos her neu wrthwynebiad), bydd amddifadedd o ryddid yn cael ei awdurdodi:

- os oes cred resymol bod gan y person ddiffyg galluedd i gydsynio
- ac os oes angen cymryd camau i ddarparu triniaeth cynnal bywyd neu gyflawni **gweithred hanfodol**.

Nid oes proses, fel y cyfryw, ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng.

# Rheoliadau Newydd i Gymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Rheoliadau drafft (deddfau newydd) i'n helpu i weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yng Nghymru. Rydym nawr yn ymgynghori ar y Rheoliadau draft yma ac rydym am glywed eich barn chi amdanyn nhw.




Bydd y Rheoliadau i Gymru yn canolbwyntio ar y canlynol:


- Pwy sy'n gallu cynnal asesiadau, penderfyniadau ac adolygiadau cyn-awdurdodi fel rhan o'r diogeliadau newydd.
- Hyfforddiant ar gyfer rôl newydd y Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy.
- Rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.
- Monitro ac adrodd ar y diogeliadau newydd.

# Cod Ymarfer drafft Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer Cymru a Lloegr




Mae Llywodraeth y DU hefyd yn newid y **Cod Ymarfer**. Mae'r Cod yn esbonio'r Rheoliadau yn fwy manwl a beth y mae'n rhaid i staff ei wneud.

Bydd yn cynnwys canllawiau ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno ar yr un pryd â'n Rheoliadau ni.




Bydd y Cod Ymarfer hwn yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymgynghori ar Reoliadau drafft ar gyfer Lloegr.

# Geiriau ac ymadroddion sydd ag ystyron arbennig

| | |
|---|---|
| Adolygiad Cyn-awdurdodi | Gwiriadau y mae'n rhaid eu gwneud cyn awdurdodi cynlluniau sy'n amddifadu person o'i ryddid. |
| Amddifadu o Ryddid | Atal rhywun rhag gwneud pethau a chyfyngu ar ei ryddid. |
| Asesiadau | Gwiriadau gan weithwyr proffesiynol yw'r rhain sy'n angenrheidiol i gytuno y gall fod angen cyfyngu ar ryddid rhywun er mwyn cefnogi ei ofal a'i driniaeth. |
| Asesydd lles pennaf | O dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), y person sy'n ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth y corff goruchwylio os oes angen Awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer rhywun. |
| Awdurdodiad | Mae awdurdodiad yn cael ei roi pan fydd y Corff Cyfrifol yn cytuno ei bod yn iawn cyfyngu ar ryddid rhywun er mwyn cefnogi ei ofal a'i driniaeth. |

| | |
|---|---|
| Corff Cyfrifol | Y bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n rhoi awdurdod i gyfyngu ar ryddid rhywun er mwyn cefnogi ei ofal a'i driniaeth. |
| Corff Monitro | Yng Nghymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru neu Estyn. |
| Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) | Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn gosod rheolau fydd yn diogelu hawliau person (16 oed neu hŷn) o dan Erthygl 5 os oes angen ei amddifadu o'i ryddid. |
| Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol | Rhywun sy'n dod i adnabod y person neu'r Person Priodol. Mae'n ei helpu i gael ei gynnwys, mae'n gallu siarad dros y person ac mae'n gallu herio'r penderfyniad. |
| Galluedd | Galluedd neu Alluedd Meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniadau penodol eich hun. |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Penderfyniad gan weithiwr proffesiynol am asesiad. |
| Person priodol | Aelod o'r teulu, ffrind, person sydd â phŵer atwrnai neu ddirprwy llys. Mae'n rhywun y mae'r person yn ei adnabod ac sy'n ei gefnogi. |
| Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP) | O dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, rhaid gwneud gwiriadau cyn awdurdodi cynlluniau sy'n amddifadu person o'i ryddid. Weithiau (er enghraifft, os yw'r person yn byw mewn ysbyty annibynnol neu os nad yw'n cytuno â'r cynlluniau gofal sy'n cael eu rhoi ar waith) bydd y gwiriad hwn yn cael ei gynnal gan Weithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy. |
| Rheoliadau | Deddf. |